# Siarter Cadwyn Gyflenwi ar gyfer Safleoedd Dadgomisiynu Niwclear

Nod y Siarter Cadwyn Gyflenwi yw meithrin cysylltiadau gweithio da ar draws cadwyn gyflenwi Ystâd yr NDA, gyda phob parti'n derbyn set o egwyddorion sy'n annog cysylltiadau a fydd yn fuddiol a gwerthfawr i bob ochr. Byddwn yn:

## Cysylltiadau:

- Trin ein gilydd yn deg, yn agored a heb ragfarn ac mewn ffordd yr hoffech chi gael eich trin
- Cynnal y safonau uchaf o ran gonestrwydd, amhleidioldeb a gwrthrychedd
- Gwneud ymholiadau dilys yn unig neu bennu'r seiliau ar gyfer gwneud cais am ddyfynbrisiau
- Cytuno ar amcanion a'i gwneud yn amlwg yr hyn a ddisgwylid gan gyflenwyr neu ddarpar gyflenwyr. Pan yn briodol byddwn yn cytuno ar amcanion cyffredin ac yn rhannu'r llwyddiant wrth gyrraedd cerrig milltir
- Rhoi adborth positif ar berfformiad ac ymddygiad, ac annog adborth 2 ffordd
- Diffinio a rhoi cyhoeddusrwydd i bwyntiau cyswllt i ymdrin ag ymholiadau a chwynion gan gyflenwyr
- Diogelu gwybodaeth sy'n gyfrinachol yn fasnachol ac amddiffyn eiddo deallusol eraill

## Cynllunio:

- Darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol bosibl am gynlluniau caffael y dyfodol
- Cynnal ymgynghoriadau cynnar â chyflenwyr neu gyrff cynrychioli ar strategaethau caffael drafft, opsiynau prisio, manylebau, a datganiadau o ofyniad pan yn briodol
- Cyhoeddi rhestrau tendro pan yn briodol
- Sicrhau bod digon o amser a gwybodaeth ar gael i gyflenwyr i ymateb i'r prosesau bidio sy'n briodol ar gyfer y gwaith
- Rhoi gwybodaeth gywir ac unrhyw ddatblygiadau diweddar drwy gydol y broses gaffael, a sicrhau eu bod ar gael i haenau is
- Canfod a rheoli unrhyw wrthdrawiad buddiannau cyn gynted â phosibl

## Perfformiad:

- Gweithredu safonau amddiffyn iechyd, diogelwch ac amgylcheddol cadarn, a dangos perfformiad amgylcheddol cyfrifol
- Dangos y safonau proffesiynol uchaf wrth ddyfarnu a rheoli contractau
- Rhoi manylebau eglur a fydd, pan yn briodol, yn annog arloesi ac sy'n defnyddio safonau'r diwydiant
- Rheoli'r broses fidio fel y gellir osgoi / lleihau baich ar gyflenwyr, ond sy'n cadw cystadleuaeth wirioneddol ac sy'n osgoi gwahaniaethu
- Sicrhau bod y meini prawf ar gyfer gwerthuso bidiau ar gael, i werthuso bidiau'n wrthrychol a rhoi gwybod am y canlyniad yn brydlon, gan roi adborth eglur a chryno i fidwyr os oes angen neu os gwneir cais amdano
- Peidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n mynd yn groes i reolau'r farchnad a rheolau cystadleuaeth
- Talu'n brydlon am waith a wnaethpwyd o fewn amserlenni penodedig

### Cysylltiadau

Dychweler eich Siarter Cadwyn Gyflenwi i: **supplychain@nda.gov.uk** neu gellir ei bostio i Supply Chain Team, NDA Harwell Office, B587 Curie Avenue, Harwell, Didcot, Swydd Rydychen, OX11 0RH

Ewch i **www.gov.uk/nda** am restr o'r cwmnïau sydd wedi llofnodi'r siarter, sut i ddefnyddio nod gair y Siarter, a manylion am bwy i gysylltu â hwy os oes gennych unrhyw ymholiadau neu broblemau'n ymwneud â'r siarter yr hoffech eu trafod.

## Ymrwymiad i'r Siarter:

Ar ran: ____________________

(Cwmni) ____________________

Enw: ____________________

Swydd: ____________________

Prif Swyddog Gweithredol neu Reolwr Gyfarwyddwr:

Llofnodwyd: ____________________

Dyddiad: ____________________

Enw: ____________________

Swydd: ____________________

Cyfarwyddwr Masnachol:

Llofnodwyd: ____________________

Dyddiad: ____________________

Enw Cyswllt: ____________________

E-bost: ____________________

Ffôn: ____________________

Gwefan: ____________________

☐ Ticiwch yma os hoffech i ni roi dolen o'n gwefan ni at eich gwefan chi

# Siarter Cadwyn Cyflenwi ar gyfer Safleoedd Dadgomisiynu Niwclear

Mae'r Siarter Cadwyn Cyflenwi yn ymdrech i wella cysylltiadau, cynllunio a pherfformiad drwy bob haen o'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ystâd yr NDA.

Y brif egwyddor sydd wrth wraidd y siarter yw ceisio sicrhau bod pob lefel o'r gadwyn cyflenwi'n 'glient da'. Mae pob cyflenwr yn cael ei annog i ddangos y siarter hwn i'w cyflenwyr hwythau.

## Ystâd yr NDA

Mae'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (NDA) yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a sefydlwyd o dan Ddeddf Ynni 2004 gyda chenhadaeth i ddadgomisiynu a glanhau'r 17 safle niwclear sifil yn y sector cyhoeddus, sefydlu'r trefniadau rheoli tymor hir ar gyfer gwastraff ymbelydrol lefel uwch y DU a datblygu strategaeth a chynlluniau rheoli Gwastraff Lefel Isel ar gyfer y DU gyfan.

Mae'r NDA yn cynnig rhai contractau, ond y 4 Cwmni Trwydded Safle (SLC) sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg y 17 rhaglen safle o ddydd i ddydd. Mae'r SLCau yn llunio contractau'n uniongyrchol â'r gadwyn gyflenwi am y nwyddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu rhaglenni.

Pan maent yn gweithio fel rhan o gadwyn gyflenwi'r NDA, mae cyflenwyr yn cael eu hannog i arloesi, herio costau a chwilio am ffyrdd mwy effeithlon o weithio i ddangos y gwerth gorau posibl am arian yn barhaus ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r NDA yn annog pob cyflenwr i gydymffurfio â chodau ymarfer Taliadau Teg y Llywodraeth, a dangos eu hymrwymiad i'r safonau uchaf o ran sgiliau a diogelwch drwy'r Pasbort Sgiliau Niwclear.

## Gweithio mewn Partneriaeth

NDA Nuclear Decommissioning Authority

Dounreay Site Restoration Ltd

LLW Repository Ltd

Magnox

Sellafield Ltd

Westinghouse Springfields Fuels Ltd

# Siarter Cadwyn Gyflenwi ar gyfer Safleoedd Dadgomisiynu Niwclear

Meithrin cysylltiadau gweithio da ar draws cadwyn gyflenwi Ystâd yr NDA